# OFFRWM Y WEDDW



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yn y wers hon, byddwn yn astudio Offrwm y Weddw o Marc 12:42-44 a Luc 21:1-4 a darganfod gwir ystyr rhoi a sut mae Iesu yn gwerthfawrogi'r bwriadau y tu ôl i'n gweithredoedd.

**Pwyntiau Allweddol:**

- Nid yw'n ymwneud â faint rydyn ni'n ei roi.
- Mae Iesu yn gweld hyd yn oed gweithredoedd tawel.
- Mae gwir roi yn dod o'r galon.
- Dylem ymddiried yn llawn yn Nuw.

## Canllaw Gwersi

Dechreuwch trwy osod gwahanol eitemau neu luniau, fel losin, car tegan, cyfrifiadur, neu dŷ. Gofynnwch i'ch plant eu trefnu yn ôl yr hyn maen nhw'n meddwl sydd fwyaf gwerthfawr. Ar ôl ei wneud, trafodwch eu dewisiadau. Gofynnwch iddyn nhw, "Pam ydych chi'n meddwl bod un eitem yn fwy gwerthfawr?"

Gwnewch hi'n glir ein bod yn aml yn gwerthfawrogi rhywbeth yn ôl cost eitem, ond mae gwerth yn fwy na chost. Er enghraifft, efallai na fydd tegan syml wedi'i roi gan ffrind yn costio llawer, ond mae'n amhrisiadwy oherwydd y cariad a'r atgofion ynghlwm wrtho..Rhannwch stori bersonol am anrheg a gawsoch nad oedd efallai wedi bod yn ddrud ond a oedd yn hynod ystyrlon.

Darllenwch y darn o Marc 12:42-44 neu Luc 21:1-4.

Rhannwch stori am berson sy'n rhoi tegan nad ydyn nhw byth yn chwarae ag ef mwyach ac un arall sy'n rhannu eu hunig degan. Gofynnwch, "Pwy ydych chi'n meddwl a roddodd fwyaf?" Tynnwch sylw at y gwahaniaeth rhwng rhoi'r hyn nad oes ei angen arnom a rhoi rhywbeth pwysig iawn i ni.

Paratowch ddau focs i'r plant: un wedi'i lapio â rhubanau a phapur lliwgar a'r llall wedi'i lapio'n llai deniadol mewn papur brown plaen. Rhowch rywbeth  nad yw fawr o werth ,er enghraifft carreg fach, tu mewn i'r blwch lliwgar,  Rhowch nodyn gyda neges o’r galon arno neu dlws bach, personol yn y blwch syml. Dangoswch y ddau flwch i'r plant a gofynnwch pa un maen nhw'n cael eu denu ato n seiliedig ar ymddangosiad y ddau. Ar ôl iddynt ddewis, datgelwch gynnwys pob blwch. Trafodwch sut y gallai ymddangosiad allanol y blwch lliwgar fod wedi bod yn gamarweiniol, ac nad oedd ei gynnwys mor werthfawr â chynnwys y blwch plaen.

Esboniwch sut y gall pobl yn aml gael eu dylanwadu gan anrhegion crand ,llachar neu ddrud, ond mae Iesu'n ein dysgu mai'r meddwl a'r cariad y tu ôl i'n rhoddion yw'r hyn sy'n wirioneddol bwysig. Mae Duw yn edrych i mewn i'n calonnau i weld y cariad a'r pwrpas y tu ôl i'n gweithredoedd.

Dysgwch ac ailadroddwch 2 Corinthiaid 9:7: "Mae Duw yn caru pobl sy wrth eu boddau yn rhoi." Nid yw'n ymwneud â beth neu faint rydyn ni'n ei roi, ond y llawenydd wrth i ni  ei roi.


Siaradwch am ymddiriedaeth. Pan roddodd y weddw ddau ddarn arian yn y blwch, dangosodd ei bod yn ymddiried yn Nuw i ofalu am ei hanghenion. Gofynnwch i'r plant feddwl am amser y maent yn ymddiried yn rhywun, fel neidio i freichiau rhiant o uchder, gan gredu y byddent yn eu dal. Mae gweithred y weddw o roi popeth oedd ganddi yn debyg. Roedd hi'n credu y byddai Duw yn darparu ar ei chyfer, hyd yn oed pan oedd hi wedi rhoi popeth oedd ganddi iddo.

Eglurwch er y gallai rhodd y weddw ymddangos yn fach o'i gymharu ag eraill ; roedd yn enfawr yng ngolwg Iesu oherwydd y cariad a'r aberth y tu ôl iddi.

Gofynnwch, "Pa bethau bach allwch chi eu rhoi i Dduw neu eu rhannu gydag eraill?" Gadewch i'r plentyn feddwl am syniadau  Gall fod yn wên, llun, canmoliaeth, neu hyd yn oed degan bach. Pwysleisiwch  sut y gall y gweithredoedd bach hyn o roi, yn union fel dau ddarn arian y weddw,wneud gwahaniaeth mawr yn Nheyrnas Dduw.

Gweddïwch i orffen.

© 2025 truewaykids.com



Roedd Iesu ‘n ei gwylio.

Dywedodd, "Weloch chi’r weddw honno? Rhoddodd fwy na phawb.

Oherwydd tra bod eraill yn rhoi o'r hyn oedd ganddyn nhw’n ychwanegol, rhoddodd hi o'i chalon, hyd yn oed y cyfan oedd ganddi."







Un diwrnod, roedd Iesu yn y deml gyda'i ddisgyblion.

Roedd llawer o bobl yn mynd a dod.

Roedden nhw'n gollwng darnau arian i mewn i focs mawr.

Dyma’u ffordd o roi rhywbeth arbennig i Dduw.




Daeth dyn cyfoethog yn llawn swae a swanc.

Gollyngodd lawer iawn o ddarnau arian i'r bocs.

Gwnaeth yr arian lawer o sŵn!

Gwelodd pawb ef a meddwl, "Waw! Rhoddodd gymaint!"






Yna, yn dawel, daeth gweddw dlawd.

Dim ond dau ddarn bach arian oedd ganddi.

Prin y gwnaethon nhw unrhyw sŵn pan ollyngodd nhw i ‘r blwch.

Ond iddi hi, y ddau ddarn arian hynny oedd y cyfan oedd ganddi.




Roedd Iesu ‘n ei gwylio.

Dywedodd, "Weloch chi’r weddw honno? Rhoddodd fwy na phawb.

Oherwydd tra bod eraill yn rhoi o'r hyn oedd ganddyn nhw’n ychwanegol, rhoddodd hi o'i chalon, hyd yn oed y cyfan oedd ganddi."






# OFFRWM Y WEDDW

Un diwrnod, roedd Iesu yn y deml gyda'i ddisgyblion.

Roedd llawer o bobl yn mynd a dod.

Roedden nhw'n gollwng darnau arian i mewn i focs mawr.

Dyma’u ffordd o roi rhywbeth arbennig i Dduw.




Daeth dyn cyfoethog yn llawn swae a swanc.

Gollyngodd lawer iawn o ddarnau arian i'r bocs.

Gwnaeth yr arian lawer o sŵn!

Gwelodd pawb ef a meddwl, "Waw! Rhoddodd gymaint!"





Yna, yn dawel, daeth gweddw dlawd.

Dim ond dau ddarn bach arian oedd ganddi.

Prin y gwnaethon nhw unrhyw sŵn pan ollyngodd nhw i ‘r blwch.

Ond iddi hi, y ddau ddarn arian hynny oedd y cyfan oedd ganddi.

# Gêmau a Gweithgareddau

## Gollwng Darn arian


Rhowch nifer fach o ddarnau arian i'r plentyn a rhowch jar neu fwced yng nghanol yr ystafell.


Gofynnwch i'r plant ollwng neu daflu'r darnau arian fesul un i'r bwced.

Cyfrifwch faint o ddarnau arian oedd y tu mewn.

Ceisiwch eto o bellter pellach.

Trafodwch sut y rhoddodd y weddw ei dau ddarn arian gyda  llawenydd i Dduw.





## Darnau Arian Gwerthfawr

Darparwch bapur, creonau, ac addurniadau.

Gofynnwch I'r plant ddylunio eu darnau arian eu hunain gyda darluniau sy'n cynrychioli pethau maen nhw'n eu caru neu weithredoedd o garedigrwydd.

Trafodwch sut mae Duw yn gwerthfawrogi ein cariad a'n bwriadau, yn union fel y weddw.

## Trefnu Gwerth Darnau Arian

Gwasgarwch amrywiaeth o ddarnau arian ar fwrdd.

Helpwch y plentyn i 'w didoli nhw yn ôl eu gwerth ariannol.

Ceiniogau gyda cheiniogau, ac yn y blaen.

Tynnwch sylw at sut roedd offrwm bach y weddw  o'r galon yn fwy gwerthfawr i Iesu nag offrymau llawer mwy.




© 2025 truewaykids.com

# Cyfrifwch y darnau arian




1 2 3



2 1 4




3 1 5




5 3 4



3 2 5



3 1 4




3 4 6



7 6 2


© 2025 truewaykids.com

# Tynnwch lun eich darn arian eich hun



© 2025 truewaykids.com

# Trefnwch o'r rhataf i'r drutaf




















© 2025 truewaykids.com

# Dewch o hyd i 5 gwahaniaeth





© 2025 truewaykids.com

# Blwch OffrymRhoddwr Siriol




## Yr hyn sydd ei angen arnoch chi:

Tudalennau templed (defnyddiwch gerdyn am y canlyniadau gorau),


Offer lliwio,

Siswrn,


Glud.

https://youtu.be/wD_oLBitCTM

## Beth i'w wneud:



Lliwiwch y tudalennau templed.




**OEDOLYN:** Torrwch yr ardal lwyd i fewnosod arian yn y blwch.




Torrwch y rhannau a’u gludo / tâpio gyda'i gilydd.

Dewisol: Gadewch yr adran uchod heb ei gludo.

© 2025 truewaykids.com

© 2025 truewaykids.com

Gludwch yma

Gludwch yma


Gludwch yma

MAE DUW
YN CARU
RHODDWR
SIRIOL

**2 CORINTHIAID 9:7**

Gludwch yma


Gludwch yma


Gludwch yma
Gludwch yma
Gludwch yma
© 2025 truewaykids.com


# DARN ARIAN Y WEDDW





© 2025 truewaykids.com




© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos ‘You Tube’ i’w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



Offrwm y Weddw - Stori

https://youtu.be/HyHXD8Okqds

God Loves A Cheerful Giver

https://youtu.be/-UZ9td0LBpM?si

It's a good thing to give thanks

https://youtu.be/QnnUTiseZHg?si



# Gweddi

Diolch Dduw, am bopeth rwyt Ti’n ei roi i ni.

Helpa ni i rannu a rhoi yn union fel y gwnaeth y weddw.

Helpa ni i ymddiried ynot Ti. Amen.

**Am fwy o wersi am ddim ewch i**

TRUEWAY KIDS.COM

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2025 truewaykids.com